Gwybodaeth dan Reolaeth

Cyngor Gwynedd

# POLISI DIOGELU DATA

3.0

Mehefin 2018

Y Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth

## 1. Cyflwyniad

Yn ei waith, bydd y Cyngor yn creu, casglu, storio a phrosesu llawer iawn o wybodaeth bersonol am aelodau'r cyhoedd, staff, cwsmeriaid, defnyddwyr gwasanaeth ac eraill.

O'r herwydd, mae angen glynu at ddeddfwriaeth diogelu data, sef Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

## 2. Diben

Diben y polisi hwn yw egluro cyfrifoldebau'r Cyngor a'i staff i gydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth diogelu data.

## 3. Sgôp

Mae pob aelod staff yn gyfrifol am gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a glynu at y polisi a'r egwyddorion fel y nodwyd isod. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar gael ar y fewnrwyd.
**Gallai unrhyw achos bwriadol o dorri'r polisi arwain at gamau disgyblu neu hyd yn oed at erlyniad troseddol.**

## 4. Data Personol a Sensitif

Data personol yw gwybodaeth am unigolyn byw y gellir ei adnabod neu mae modd ei adnabod.

Mae gwybodaeth sensitif yn cael ei gyfrif fel data 'categori arbennig' (Atodiad 1) ac mae'n rhai cymryd gofal penodol wrth ddefnyddio'r data hwn.
Dyma wybodaeth am:

Hil, ethnigrwydd, iechyd, credoau gwleidyddol, undebau llafur, data biometreg neu geneteg, crefydd, bywyd rhywiol neu rywioldeb.

## 5. Egwyddorion

Mewn termau syml, mae gofyn i'r Cyngor lynu at egwyddorion diogelu data.

Yn ôl Erthygl 5 y GDPR:

a) Rhaid prosesu gwybodaeth yn gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw
b) Rhaid ei gasglu am ddiben penodol a pheidio a'i ddefnyddio i bwrpas sy'n anghydnaws
c) Rhaid i data personol bod yn ddigonol, perthnasol a'i gyfyngu
d) Rhaid i data fod yn gywir ac wedi ei ddiweddaru
e) Rhaid peidio a'i gadw'n hwy nag sydd angen

f) Rhaid ei brosesu mewn ffordd sy’n diogelu’r data gan gymryd camau priodol

**6. Sail gyfreithiol ar gyfer Prosesu**

Er mwyn defnyddio gwybodaeth bersonol, rhaid i'r Cyngor gael sail gyfreithiol. Yn ogystal, mae prosesu gwybodaeth sensitif yn gofyn am amodau prosesu ychwanegol.
Mae'r rhain wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Bydd y Cyngor yn cofnodi'r sail gyfreithiol i brosesu ar gyfer ei weithgareddau ac yn hysbysu unigolion drwy ei hysbysiadau preifatrwydd.

**7. Caniatâd**

Dim ond un o'r amodau ar gyfer prosesu yw'r caniatâd. Gan bod y Cyngor yn awdurdod cyhoeddus, mae'n annhebygol y bydd y caniatâd yn addas fel sail gyfreithiol i brosesu ac felly, ble bynnag y bo modd, dylid defnyddio cyfiawnhad amgen (e.e. awdurdod neu gytundeb swyddogol).

Pan fo caniatâd yn cael ei ddefnyddio, rhaid iddo gael ei roi yn rhydd, ac mae'n rhaid iddo fod yn benodol, yn wybodus ac yn ddiamwys. Nid yw dweud dim na blychau wedi'u ticio'n barod yn gyfystyr â chaniatâd.

**8. Datganiadau Preifatrwydd**

Er mwyn cadw at yr egwyddor gyntaf o fod yn deg ac yn dryloyw, mae gofyn i'r Cyngor ddarparu hysbysiad preifatrwydd i unigolion i adael iddynt wybod beth mae'n ei wneud gyda'u gwybodaeth bersonol.

Mae templed ar gael ar y fewnrwyd.

**9. Cadw Gwybodaeth**

Ni ddylid cadw gwybodaeth bersonol yn hirach nag sydd angen. Os nad oes ei hangen mwyach, rhaid ei dinistrio’n ddiogel neu ei dileu (os yw ar ffurf electronig) Cysylltwch a’r Gwasanaeth Rheoli Gwybodaeth i gael gwybod beth yw ein cyfnodau cadw.

**10. Cofnod o’r Gweithgareddau Prosesu**

Bydd y Cyngor yn cadw cofnod o’i weithgareddau ar ffurf cofrestr asedau gwybodaeth. Bydd hyn yn nodi pam fod y wybodaeth personol yn cael ei brosesu, manylion y wybodaeth honno, ble mae'r data'n cael ei gadw, gyda pwy mae'r data'n cael ei rannu, beth yw'r sail gyfreithiol a mesurau diogelwch i ddiogelu'r wybodaeth.

**11. Hawliau Unigol**

**Hawliau Mynediad**
Gall unigolion wneud cais i weld unrhyw wybodaeth mae'r Cyngor yn ei dal amdanynt, gan gynnwys copïau o e-byst ac unrhyw farn a fynegir amdanynt.

Bydd y Cyngor yn ymateb i geisiadau o'r fath am wybodaeth bersonol yn unol â'i brosesau ymdrin â data.

Er mwyn cydymffurfio â'r gofyniad i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, bydd y Cyngor yn darparu crynodeb Saesneg o ddeunyddiau Cymraeg ond bydd yn gofyn i'r ymgeisydd drefnu cyfieithiad llawn ar ei liwt ei hun.

**Hawl i ddileu, cyfyngu ar brosesu, i gywiro, cludadwyedd ac i wrthwynebu**

Mae gan unigolion yr hawliau a nodir uchod hefyd. Gweler Atodiad 2 am fanylion.

Os ydi aelod o staff yn derbyn cais o'r math, dylid ei gyfeirio at y Swyddog Diogelu Data yn syth.

**Hawliau mewn perthynas a phenderfyniadau awtomataidd a phroffilio**

Gweler y wybodaeth yn Atodiad 2

## 12. Rhannu Data

Os ydym yn rhannu gwybodaeth tu allan i'r Cyngor, rhaid cael sail gyfreithiol dros y rhannu a dylai bod yr unigolyn wedi cael gwybod pwy yw'r trydydd parti drwy ddatganiad preifatrwydd.

Wrth gydweithio gyda phartneriaid, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i arwyddo protocolau rhannu gwybodaeth a chytundebau datgelu data o dan fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru. .

Ni ddylai staff oedi rhag rhannu gwybodaeth bersonol er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol mewn argyfwng neu mewn amgylchiadau sy'n bygwth bywyd. Os oes pryderon ynghylch materion amddiffyn plant neu oedolion, rhaid dilyn y gweithdrefnau sefydliadol perthnasol.

**Datgelu gwybodaeth i gynghorwyr**

Dylid cyfeirio at Adran 3 "Cael Gwybodaeth a Chymryd Rhan" ac Adran 14 "Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth" yn y Cyfansoddiad. O bryd i'w gilydd, bydd aelod yn gofyn am wybodaeth ar ran ei etholwyr. Ar achlysuron o'r fath, er mwyn osgoi unrhyw ddryswch, anogir aelodau i gael caniatâd ysgrifenedig gan yr etholwyr er mwyn i wybodaeth amdanynt gael ei rhyddhau i'r aelod. Gwneir penderfyniadau ynghylch hawliau cynghorwyr i wybodaeth bersonol ar sail "angen gwybod" ac mewn unrhyw achos pan fo amheuaeth, dylid cyfeirio hyn at y Swyddog Monitro.

**Ceisiadau gan Gyrff Allanol**

Gall sefydliadau allanol ofyn i'r Cyngor ddatgelu gwybodaeth bersonol mae'r Ddeddf Diogelu Data yn darparu eithriad i sefydliadau sy'n prosesu gwybodaeth bersonol er dibenion canfod ac atal trosedd neu gasglu trethi neu ardollau.

**Ceisiadau i sefydliadau eraill**

Yn ogystal, mae gan rai gwasanaethau yn y Cyngor (e.e. Uned Trethi, Budd-daliadau) hawl i wneud cais am wybodaeth ac felly dylent hwythau hefyd ddilyn y gweithdrefnau priodol i gael y wybodaeth hon.

**Cytundebau prosesu data**

Os oes perthynas fasnachol sy’n golygu fod trydydd parti'n prosesu data personol ar ran y Cyngor ac yn gweithredu fel ‘prosesydd data’, rhaid cael contract ysgrifenedig sydd yn cynnwys yr amodau sy’n cael eu gosod allan yn y GDPR.

## 13. Diogelu Data trwy Ddylunio

O dan y GDPR a’r Ddeddf Diogelu Data, mae dyletswydd ar y Cyngor i ystyried yr effaith ar breifatrwydd data yn ystod pob gweithgaredd prosesu data.

**Asesiadau Effaith Diogelu Data**

Wrth ystyried gweithgareddau newydd sy’n prosesu gwybodaeth bersonol neu wrth sefydlu gweithdrefnau neu systemau newydd sy’n cynnwys data personol, rhaid ystyried yr effaith ar breifatrwydd ar y cychwyn. Dylid cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data.

Pwrpas yr asesiad ydi adnabod unrhyw risgiau i breifatrwydd a gwybodaeth bersonol ar gychwyn gweithgaredd neu brosiect.

Bydd y Cyngor yn cynnal Asesiadau o'r fath pan fo gofyn arno i wneud hynny. Mae templed ar gael ar y fewnrwyd.

## 14. Diogelwch Data

Mae pob defnyddiwr yn gyfrifol am sicrhau bod gwybodaeth bersonol bob amser yn cael ei diogelu ac nad yw’n cael ei datgelu i drydydd parti anawdurdodedig yn ddamweiniol, trwy esgeulustod neu’n fwriadol.

Rhaid darllen y Trefn Weithredu Diogelwch Gwybodaeth ar y cyd efo’r Polisi hwn..

**Digwyddiadau Diogelwch Data**

Mae digwyddiad data yn golygu sefyllfaoedd lle mae data wedi ei golli, ei ddinistrio neu ei niweidio’n ddamweiniol.

Rhaid adrodd am unrhyw ddigwyddiad pan fo gwybodaeth bersonol yn cael ei datgelu (boed hynny'n fwriadol neu'n anfwriadol) i Swyddog Diogelu Data’r Cyngor *ar unwaith.*

Bydd y Swyddog yn penderfynu os yw’r achos yn ddigon difrifol, ac os ydyw, mae’n rhaid adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth cyn gynted ag y bo modd a dim hwyrach na o  72 awr o ddod yn ymwybodol ohono.

## 15. Cyfrifoldebau

**Aelodau staff**

Mae gan bob aelod staff gyfrifoldeb i sicrhau eu bod yn cadw at yr egwyddorion ac amodau eraill y ddeddfwriaeth. Mae cymal ym mhob swydd ddisgrifiad yn datgan y cyfrifoldeb yma'n glir.

**Perchnogion Asedau Gwybodaeth (rheolwyr gwasanaeth)**

- Sicrhau bod y cofnod o weithgareddau prosesu yn cael ei gadw'n gyfredol.
- Sicrhau bod eu staff yn derbyn hyfforddiant hyd lefel sy'n briodol i'w swydd.
- Sicrhau bod staff yn darllen ac yn derbyn pob polisi sy'n ymwneud â diogelu data.
- Sicrhau bod y wybodaeth bersonol maent yn gyfrifol amdani yn cael ei rhannu'n briodol, yn fewnol ac yn allanol.
- Sicrhau bod mynediad i ffolderi a ffeiliau electronig a ffeiliau papur yn cael ei reoli'n gaeth.

**Uwch Reolwyr**
Ymgymryd a swyddogaethau trosolwg penodol o fewn eu hadran ym maes diogelu gwybodaeth.

**Penaethiaid Gwasanaeth**

Cyfrifoldeb cyffredinol am gydymffurfio o fewn eu gwasanaeth.

**Swyddog Diogelu Data**

- Darparu cyngor
- Darparu hyfforddiant
- Gweinyddu trefn gwynion
- Cynnal archwiliadau
- Pwynt cyswllt i'r cyhoedd ac i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

**Grŵp  Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth**

Mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolydd o bob adran ac yn cael ei gadeirio gan Bennaeth y Gwasanaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.
Pwrpas y grŵp ydi gweithredu fel pwynt cyswllt yr adrannau o ran materion gwybodaeth yn gyffredinol a nodi unrhyw risgiau sydd angen cael eu dwyn i sylw'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, sef Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth y Cyngor.

**16. Cwynion**

Os bydd cwyn yn cael ei dderbyn gan y cyhoedd ynghylch defnydd y Cyngor o wybodaeth bersonol, dylai'r Swyddog Diogelu Data  ymdrin â'r mater.

Yn yr un modd, dylid tynnu sylw'r Swyddog Diogelu Data at unrhyw enghraifft o fethu â chydymffurfio â'r Ddeddf neu'r canllawiau.

## 17. Diffyg cydymffurfio

Mae gofyn i bob aelod staff gydymffurfio â'r polisi ac fe allai unrhyw aelod o staff y canfyddir ei fod wedi datgelu gwybodaeth heb awdurdod neu ei fod wedi torri telerau'r polisi fod yn agored i gamau disgyblu.

Gallai'r Cyngor gael ei ddirwyo am ddiffyg cydymffurfio, a hynny am hyd at 10miliwn Ewro neu 20miliwn Ewro, yn ddibynnol ar natur yr achos.

## 18. Pwyntiau cyswllt a gwybodaeth bellach

Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yw SIRO (Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth) y Cyngor ac felly ganddo ef mae'r cyfrifoldeb a'r atebolrwydd ar lefel uwch.

Helen Parry, Rheolwr Gwybodaeth, yw Swyddog Diogelu Data'r Cyngor, swyddogdiogeludata@gwynedd.llyw.cymru.

Mae manylion pellach ar gael ar wefan y Comisiynydd Gwybodaeth - www.ico.org.uk

## 19. Adolygu

Caiff y polisi hwn ei adolygu ymhen 2 flynedd.

**Atodiad 1**

Rhaid cael cyfiawnhad am brosesu unrhyw ddata personol. Rhaid bodloni un o'r amodau a ganlyn:

1. Mae’r unigolyn wedi rhoi caniatâd
2. Mae’n rhaid prosesu oherwydd contract
3. Mae’n angenrheidiol prosesu oherwydd gofyn cyfreithiol
4. Rhaid prosesu i warchod buddiannau hanfodol person
5. Mae’n angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg sydd er budd y cyhoedd neu mae’n rhan o awdurdod swyddogol y sefydliad
6. Mae’n angenrheidiol oherwydd buddion cyfreithlon y sefydliad neu drydydd parti

O ran data personol sensitif, rhaid bodloni un o'r amodau a ganlyn **yn ogystal**:

(a) Mae’r unigolyn wedi rhoi caniatâd

(b) mae'r prosesu’n angenrheidiol er dibenion yn y maes cyflogaeth a nawdd cymdeithasol a chyfraith gwarchod cyhoeddus

(c) mae'r prosesu’n hanfodol i warchod buddion hanfodol

(d) mae'r prosesu'n cael ei wneud gan sefydliad, cymdeithas neu unrhyw gorff nid-er-elw arall

(e) mae'r prosesu'n ymwneud â data personol sy'n cael ei wneud yn gyhoeddus gan yr unigolyn;

(f) mae'r prosesu'n angenrheidiol i sefydlu, defnyddio neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol

(g) mae'r prosesu'n angenrheidiol am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol

(h) mae'r prosesu’n angenrheidiol er dibenion meddyginiaeth ataliol neu alwedigaethol, ar gyfer asesu capasiti gweithio'r gweithiwr, diagnosis meddygol, darparu iechyd neu ofal cymdeithasol neu driniaeth neu reoli systemau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol

(i) mae'r prosesu’n angenrheidiol yn y maes iechyd cyhoeddus, megis gwarchod

(j) mae'r prosesu'n angenrheidiol er dibenion archifo er budd y cyhoedd, dibenion ymchwil gwyddonol neu hanesyddol mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau a buddion sylfaenol pwnc y data.

**Atodiad 2**

**Yr Hawl i Wrthwynebu**

Mae gan unigolion hawl i wrthwynebu i:

- Brosesu'n seiliedig ar fudd cyfreithlon neu berfformio tasg er budd y cyhoedd/defnyddio awdurdod swyddogol (gan gynnwys proffilio);
- Marchnata uniongyrchol (gan gynnwys proffilio); a
- Phrosesu er dibenion ymchwil gwyddonol/hanesyddol ac ystadegau.

Bydd y Cyngor yn rhoi'r gorau i brosesu'r data personol dan sylw oni bai

- Y gall ddangos seiliau cyfreithlon cadarn dros y prosesu, sy'n gorbwyso buddion, hawliau a rhyddid pwnc y data; neu
- mae'r prosesu'n digwydd er mwyn sefydlu, gweithredu neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

**Yr hawl i ddileu**

Mae hwn yn rhoi hawl i unigolion i gael eu data personol wedi'i ddileu ac i atal prosesu mewn amgylchiadau penodol:

- Pan nad oes angen y data personol mwyach mewn perthynas â'r diben y cafodd ei gasglu/prosesu yn wreiddiol.
- Pan fo'r unigolyn yn tynnu ei ganiatâd yn ôl
- Pan fo'r unigolyn yn gwrthwynebu'r prosesu ac nad oes budd cyfreithlon gorbwysol er mwyn parhau â'r prosesu.
- Cafodd y data personol ei brosesu'n anghyfreithlon (h.y. yn torri'r GDPR fel arall).
- Rhaid dileu'r data personol er mwyn cydymffurfio â goblygiad cyfreithiol.
- Mae'r data personol yn cael ei brosesu mewn perthynas â'r cynnig o wasanaethau gwybodaeth ar-lein i blentyn.

Gall y Cyngor wrthod cydymffurfio â chais i ddileu pan fo'r data personol yn cael ei brosesu am y rhesymau a ganlyn:

- I weithredu'r hawl i ryddid mynegiant a gwybodaeth
- I gydymffurfio â goblygiad cyfreithiol i berfformio tasg er budd y cyhoedd neu ddefnyddio awdurdod swyddogol
- Er dibenion iechyd cyhoeddus er budd y cyhoedd
- Archifo dibenion er budd y cyhoedd, ymchwil gwyddonol, ymchwil hanesyddol neu ddibenion ystadegol, neu
- Defnyddio neu amddiffyn hawliadau cyfreithiol.

**Yr hawl i gyfyngu ar y prosesu**

Pan fo'r prosesu wedi'i gyfyngu, gall y Cyngor storio gwybodaeth bersonol ond ni all brosesu'r wybodaeth.

Pan fo unigolyn wedi herio cywirdeb ei ddata, dylid cyfyngu ar y prosesu hyd nes bo'r cywirdeb wedi'i gadarnhau.

- Pan fo pwnc y data wedi gwrthwynebu'r prosesu (ble roedd gwneud hynny'n angenrheidiol er mwyn perfformio tasg er budd y cyhoedd neu ddiben gyda budd cyfreithlon), a bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i p'un a ydyw sail gyfreithlon y Cyngor yn gorbwyso seiliau pwnc y data.
- Pan fo'r prosesu yn anghyfreithlon a bod yr unigolyn yn erbyn dileu'r data ac yn gofyn am gyfyngiad yn lle hynny.
- Os nad oes angen cadw'r wybodaeth mwyach ond mae pwnc y data angen y data i sefydlu, defnyddio neu amddiffyn hawliad cyfreithiol.

**Yr hawl i gywiro**

Mae gan unigolion hawl i gael eu data personol wedi'i gywiro os ydyw'n anghywir neu'n anghyflawn.

Bydd gan y Cyngor un mis (y gellir ei ymestyn i ddau fis os yw'r cywiriad yn gymhleth), i ymateb i gais o'r fath ac, os penderfynir na fydd camau'n cael eu cymryd, bydd yr unigolyn yn cael eglurhad ynghylch pam ac yn cael gwybod am ei hawl i gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac i unioniad barnwrol.

Bydd y Cyngor yn rhoi gwybod i unrhyw drydydd partïon ynghylch y cywiriad ble bo modd a bydd hefyd yn rhoi gwybod i'r unigolyn ynghylch pa drydydd partïon y mae'r data wedi'i ddatgelu iddynt, ble bo modd.

**Hawliau mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd**

Proffilio yw'r cam o brosesu data i werthuso, dadansoddi neu ragweld ymddygiad. Mae gwneud penderfyniadau awtomataidd yn cynnwys gwneud penderfyniadau heb gyswllt gan unrhyw fodau dynol.

Mae rheolau ychwanegol os yw'r Cyngor yn gwneud penderfyniadau awtomataidd sy'n cael effeithiau cyfreithiol ar yr unigolyn.

Bydd y Cyngor yn dogfennu'r sail gyfreithiol am yr uchod ac yn hysbysu unigolion pan fo proffilio neu wneud penderfyniadau awtomataidd yn cael ei wneud.

**Yr hawl i gludadwyedd**

Gall yr unigolyn wneud cais i'r wybodaeth gael ei ddarparu mewn diwyg strwythuredig, a ddefnyddir yn gyffredin ac sy'n ddarllenadwy i beiriant er mwyn cael ei anfon i sefydliad arall.  Dim ond mewn amgylchiadau penodol mae'r hawl hwn yn berthnasol.